

# Arweiniad DocuSign

## Cymorth i Brynu – Cymru




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### Beth yw DocuSign?

Mae DocuSign yn ddarparwr gwasanaeth ar gyfer defnyddio llofnodion digidol. Mae Cymorth i Brynu – Cymru yn defnyddio contractau DocuSign ar gyfer prosesau dethol, er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd, wrth i fusnesau addasu i amgylcheddau gwaith o bell. Bydd contractau DocuSign yn cyrraedd drwy e-bost, gyda chanllawiau ar gwblhau'r dogfennau. Mae mynediad i arwydd wedi'i ddiogelu gan gyfrinair.

### Ychwanegu Gwybodaeth am Dderbynwyr

Bydd pob contract DocuSign yn cael ei anfon drwy'r cyfreithiwr/trawsgludwr a enwir gan ein cleient. Bydd y cyswllt hwn wedyn yn gyfrifol am ychwanegu'r wybodaeth briodol ar gyfer y parti arwyddo. Er mwyn ychwanegu gwybodaeth y derbynnydd, cliciwch ar y ddolen a ddarperir yn yr e-bost.



Yna byddwch yn cael eich tywys i wefan DocuSign, lle byddwch yn gweld y ffurflen cofnodi data ganlynol:

### Enter Recipient's Information

#### Signing Solicitor

Select Signing Group

**Name \***  **Email \***

**Private Message**


Characters remaining: 1000

**FINISH** **VIEW DOCUMENT**

Rhowch enw cyfreithiol llawn a chyfeiriad e-bost cywir y parti arwyddo. Os mai chi yw hwn eich hun, rhowch eich enw llawn a'ch cyfeiriad e-bost eich hun. Gallwch hefyd roi neges i'r derbynnydd, a fydd yn ymddangos yn yr e-bost y maent yn ei dderbyn. Ar ôl i chi nodi'r manylion cywir, pwyswch 'Gorffen'. Anfonir e-bost newydd at y derbynnydd, yn cynnwys dolen i lofnodi'r ddogfen.

## Llofnodi Dogfen

Os ydych wedi cael eich adnabod fel y parti sy'n llofnodi, byddwch yn derbyn e-bost, yn cynnwys dolen i adolygu a llofnodi'r ddogfen. Bydd yr e-bost hwn hefyd yn cynnwys ffurflen ganllaw Cymorth i Brynu – Cymru, yn rhoi manylion y wybodaeth sydd ei angen.



Er mwyn llofnodi'r ddogfen, bydd angen i chi nodi cod mynediad (sef cyfrinair y cwsmer/cwsmeriaid). Cysylltwch â'n cwsmer cydfuddiannol am y cyfrinair.

**Nodyn:** Mae'r cyfrinair yn is ac yn cynnwys llythrennau a rhifau *yn unig*

# Please enter the access code to view the document



**Jane Smith**

Cymorth i brynu (Cymru)

The sender has requested you enter a secret access code prior to reviewing the document. You should have received an access code in a separate communication. Please enter the code and validate it in order to proceed to viewing the document.

Access Code

VALIDATE

I NEVER RECEIVED AN ACCESS CODE

Show Text

Yna gofynnir i chi ddarllen y Cofnod Electronig a'r Datgeliad Llofnod, cyn cadarnhau eich cytundeb i ddefnyddio cofnodion a llofnodion electronig.



Please read the [Electronic Record and Signature Disclosure](#).

I agree to use electronic records and signatures.

Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, pwyswch 'Parhau' i weld y ddogfen. Pan fyddwch wedi adolygu'r ddogfen lawn, pwyswch 'Dechrau' i ddechrau nodi'r wybodaeth ofynnol.

Conveyancer's/Solicitor's Undertaking Form for Full Redemption on Sale

Help to Buy (Wales) Ltd  
1 Capital Quarter  
Cardiff  
CF10 4BZ

BORROWER(S):

PROPERTY:

FIRST LENDER:

COMPLETION DATE:

We refer to the shared Equity Mortgage between the Borrower and Help to Buy (Wales) Limited ("HTBW") dated  (the "Shared Equity Mortgage").

Please tick the appropriate option (Select 1 from below):

We confirm that we have been instructed by the Borrower to act on their behalf

Darperir offer i roi rhagor o wybodaeth am bob maes. Mae'r mathau o ddata sydd i'w cofnodi yn cynnwys:

- Testun (Enwau, cyfeiriadau a gwybodaeth destunol arall)
- Dyddiadau
- Blychau ticio
- Canrannau
- Blychau gollwng
- Llofnodion

Required - Date - Firm completion date must be entered

E:

February 2022

Su	Mo	Tu	We	Th	Fr	Sa
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28					

Please select one option (Select 1 from below):


Required - We confirm that we have been instructed by the First Party regarding the sale of the above Property and to redeem the "Shared Equity Loan" in full.

We confirm that we have been instructed by the First Party regarding the proposed sale of the Property and to redeem the "Shared Equity Loan" in full.

We confirm that we have been instructed by the First Party on their behalf regarding the proposed sale of the Property and to redeem the "Shared Equity Loan" in full.

Required - Borrower name(s)

BORROWER(S):

Signed:  Date: 25 February 2022

Name: Joe Bloggs

Required - Role of signer


-- select --

Unwaith y bydd pob maes wedi'i gwblhau gyda'r wybodaeth gywir, dewiswch 'Gorffen'.


**FINISH** OTHER ACTIONS ▾

## Ar ôl ei gwblhau

Ar ôl i ddogfen gael ei llofnodi'n llawn, bydd pob derbynnydd yn derbyn copi wedi'i gwblhau ar ffurf PDF drwy e-bost. Er mwyn gweld y ddogfen, pwyswch y ddolen a ddarperir.



I gadw copi ar gyfer eich cofnodion, defnyddiwch yr opsiwn lawrlwytho a ddarperir yn y bar offer ar frig y contract wedi'i gwblhau.



Bydd Cymorth i Brynu - Cymru'n derbyn copi o'r ddogfen yn awtomatig unwaith y bydd wedi'i chwblhau, felly nid oes angen i chi anfon copiâu wedi'u cwblhau o gontractau DocuSign atom drwy e-bost neu drwy'r post. Anfonwch yr holl ddogfennau eraill y gofynnwyd amdanynt drwy'r dull arferol. Unwaith y bydd yr holl ddogfennau wedi dod i law, bydd Cymorth i Brynu - Cymru yn prosesu'r cais.

**Nodyn: Cytundeb gwasanaeth (peidiwch â chysylltu â'r tîm cyn i'r CLG ddod i ben)**

Adbrynu ar Werth – 5 diwrnod gwaith

Ad-daliad – 5 diwrnod gwaith (cynnydd i 10 yn ystod cyfnodau prysur)